# TAG

## Arholiadau 2009 ymlaen

Dyfarniad UG Cyntaf: Haf 2009

Dyfarniad Safon Uwch Cyntaf: Haf 2010

# Cymraeg:
# Ail Iaith

# Cynnwys

## TAG Uwch Gyfrannol Cymraeg Ail Iaith CBAC
## TAG Uwch Cymraeg Ail Iaith CBAC

**Dyfarniad UG cyntaf - Haf 2009**
**Dyfarniad Safon Uwch cyntaf - Haf 2010**


| | Tudalen |
|---|---|
| **Codau Cofrestru a Darpariaeth yr Unedau** | **2** |
| **Crynodeb o'r Asesiad** | **3** |
| **Rhagarweiniad** | **5** |
| **Nodau** | **8** |
| **Amcanion Asesu** | **9** |
| **Cynnwys y Fanyleb** | **10** |
| **Cynllun Asesu** | **21** |
| **Sgiliau Allweddol** | **24** |
| **Disgrifiadau Graddau** | **25** |
| **Canllawiau Asesu Mewnol** | **29** |

# TAG Cymraeg Ail Iaith

| Codau Cofrestru Pwnc/Opsiwn | |
|---|---|
| *Uwch Gyfrannol (UG) Cofrestriad "Cyfnewid"*<br>*Safon Uwch (U) Cofrestriad "Cyfnewid"* | *2381*<br>*3381* |
| CA1 : Y Ffilm a Llafaredd | 1381 |
| CA2 : Gwaith Cwrs Ysgrifenedig | 1382 |
| CA3 : Defnyddio'r Iaith a Barddoniaeth | 1383 |
| CA4 : Y Ddrama a Llafaredd | 1384 |
| CA5 : Y Stori Fer a Thrawsieithu | 1385 |
| CA6 : Defnyddio'r Iaith a Gwethfawrogi Barddoniaeth | 1386 |

| Darpariaeth yr Unedau Asesu | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Uned** | **Ionawr 2009** | **Mehefin 2009** | **Ionawr 2010 a phob blwyddyn wedi hynny** | **Mehefin 2010 a phob blwyddyn wedi hynny** |
| CA1 | | ✓ | | ✓ |
| CA2 | | ✓ | | ✓ |
| CA3 | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| CA4 | | | | ✓ |
| CA5 | | | | ✓ |
| CA6 | | | | ✓ |

**Rhifau Achredu'r Cymhwyster**

**Uwch Gyfrannol: 500/3025/5**
**Uwch: 500/2478/4**

# CRYNODEB O'R ASESIAD

Rhennir y fanyleb hon yn gyfanswm o 6 uned, 3 uned UG a 3 uned U2. Mynegir y pwysiadau a welir isod yn nhermau'r cymhwyster Safon Uwch llawn.

**UWCH GYFRANNOL - 3 uned orfodol**

| |
|---|
| **CA1** 20 % Arholiad Llafar - tua ½ awr i bob grŵp 60marc (GMU:120) |
| **Y Ffilm a Llafaredd.**<br>Caiff yr ymgeiswyr eu holi mewn grwpiau o dri ar y canlynol:<br>1. Trafod diwylliant cyfoes amlgyfrwng yng Nghymru.<br>2. Y ffilm Hedd Wyn.<br>3. Themâu yn deillio o'r ffilm. |
| **CA2** 15% Asesiad Mewnol 40 marc (GMU:90) |
| **Gwaith cwrs ysgrifenedig**<br>Gofynnir i'r disgyblion lunio pecyn rhwng 2,000 a 3,000 o eiriau gydag o leiaf 4 darn ar ffurfiau gwahanol. Rhaid i'r pecyn gynnwys 1 darn o ysgrifennu wedi ei gwblhau o dan amodau arbennig. |
| **CA3** 15% Arholiad ysgrifenedig (2 awr) 120 marc (GMU:90) |
| **Defnyddio'r Iaith a Barddoniaeth**<br>Adran A: Cwestiwn cyfansawdd yn cynnwys gwahanol fathau o ymarferion ieithyddol.<br>Adran B: 3 chwestiwn wedi'u strwythuro ar y testunau gosod. |

**SAFON UWCH (UG + 3 uned ychwanegol)**

| |
|---|
| **CA4** 15 % Arholiad Llafar - tua ½ awr i bob grŵp 45 marc (GMU:90) |
| **Y Ddrama a Llafaredd**<br>Caiff yr ymgeiswyr eu holi mewn grwpiau o dri ar y canlynol:<br>1. Trafod diwylliant cyfoes amlgyfrwng yng Nghymru.<br>2. Y ddrama Siwan.<br>3. Trafod y cysylltiadau rhwng gwahanol agweddau ar y Gymraeg drwy gyfuno a chyd-gysylltu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau a ddatblygwyd yn y pwnc.<br>(Asesiad synoptig) |
| **CA5** 20 % Arholiad ysgrifenedig (1¾ awr) 80 marc (GMU:120) |
| **Y Stori Fer a Thrawsieithu**<br>Adran A: 2 gwestiwn wedi'u strwythuro ar y testunau gosod.<br>Adran B: Trawsieithu – ymateb yn ysgrifenedig yn Gymraeg i erthygl Saesneg.<br>(Asesiad synoptig) |
| **CA6** 15 % Arholiad ysgrifenedig (1¾ awr) 120 marc (90:GMU) |
| **Defnyddio'r Iaith a Gwerthfawrogi Barddoniaeth**<br>Adran A: Cwestiwn cyfansawdd yn cynnwys gwahanol fathau o ymarferion ieithyddol.<br>Adran B: 2 gwestiwn wedi'u strwythuro ar y gerdd anghyfarwydd ac 1 cwestiwn synoptig yn cysylltu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau a ddatblygwyd yn y pwnc.<br>(Asesiad synoptig) |

# Cymraeg Ail Iaith

## 1 RHAGARWEINIAD

### 1. 1 Meini Prawf ar gyfer TAG Uwch Gyfrannol ac Uwch

Mae'r fanyleb hon yn cwrdd â gofynion y meini prawf cyffredinol ar gyfer TAG Uwch Gyfrannol (UG) a Safon Uwch (U) a'r meini prawf pwnc ar gyfer TAG Cymraeg Ail Iaith a gyhoeddwyd gan y rheolyddion [Mehefin 2006]. Bydd y cymwysterau'n cydymffurfio â gofynion graddio, dyfarnu ac ardystio y Cod Ymarfer ar gyfer cymwysterau 'cyffredinol' (gan gynnwys TAG).

Adroddir cyrhaeddiad yn y cymhwyster UG ar raddfa bum gradd, sef A, B, C, D, E. Adroddir ar y cymhwyster safon Uwch ar raddfa chwe gradd, sef A*, A, B, C, D, E. Bydd dyfarnu A* yn y safon Uwch yn cydnabod y gofynion ychwanegol a geir yn yr unedau U2 o ran 'ymestyn a herio' a gofynion 'synoptig'.

Dyfernir Gradd A* yn y Safon Uwch i ymgeiswyr sydd wedi ennill Gradd A yn y cymhwyster safon Uwch cyffredinol ac sydd hefyd wedi ennill sgôr GMU lleiaf (i'w bennu) yn yr unedau U2.

Bydd gan yr unedau asesu UG yr un pwysiad marciau ag ail hanner y cymhwyster (U2) pan fyddant yn cael eu hagregu i gynhyrchu'r dyfarniad Uwch. Mae'r UG yn cynnwys tair uned asesu, sef CA1, CA2 a CA3 yn y fanyleb hon. Tair uned sydd i'r cwrs U2 hefyd, sef CA4, CA5 a CA6.

Gellir ailsefyll yr unedau asesu cyn yr ardystio ar gyfer y cymwysterau UG neu U, ac yn yr achosion hynny, y canlyniad gorau a ddefnyddir ar gyfer dyfarnu'r cymhwyster. Bydd oes canlyniadau asesu unigol, cyn eu defnyddio ar gyfer ardystio cymhwyster, yn dibynnu ar oes y fanyleb ei hun, a dim arall.

### 1.2 Dysgu blaenorol

Nid oes anghenion penodol parthed dysgu blaenorol, er y bydd llawer o'r ymgeiswyr wedi caffael gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Gymraeg ac wedi datblygu'r sgiliau priodol wrth astudio'r pwnc ar gyfer TGAU Cymraeg Ail Iaith.
Gellir astudio'r fanyleb hon gan unrhyw ymgeiswyr beth bynnag eu rhyw neu gefndir ethnig, crefyddol neu ddiwylliannol.
Nid yw'r fanyleb yn oed-benodol ac, oherwydd hynny, darpara gyfleoedd i ymgeiswyr ymestyn eu haddysg gydol oes.

### 1.3 Dilyniant

Mae strwythur chwe rhan y fanyleb hon (3 uned ar gyfer UG, a 3 uned ychwanegol ar gyfer y Safon Uwch llawn) yn caniatáu asesu mewn camau ac ar ddiwedd y cwrs ac felly'n caniatáu i ymgeiswyr ohirio penderfyniadau ynglŷn â symud ymlaen o'r cymhwyster UG i'r cymhwyster safon Uwch llawn.

Mae'r fanyleb hon yn darparu sylfaen addas ar gyfer astudio Cymraeg Ail Iaith neu faes perthynol, trwy gyfrwng amrediad o gyrsiau addysg uwch (e.e. cyrsiau gradd mewn prifysgolion, cyrsiau addysg) neu fynediad uniongyrchol i fyd gwaith. Mae'r fanyleb hon hefyd yn darparu cwrs astudiaeth cydlynol, boddhaol a gwerthfawr ar gyfer ymgeiswyr na fyddant yn mynd ymlaen i astudio'r pwnc hwn ymhellach.

## 1.4 Rhesymeg

Amcan y fanyleb hon yw datblygu sgiliau'r ymgeiswyr i'w mynegi eu hunain yn Gymraeg, yn ysgrifenedig ac ar lafar. Anelir at ddatblygu sgiliau'r ymgeiswyr i ddefnyddio iaith â dychymyg. Anogir darllen eang yn ogystal ag astudio'n fanwl weithiau llenyddol penodol. Hyrwyddir y gallu i ymateb i lenyddiaeth ac i ddeunyddiau diwylliannol cyfoes amlgyfrwng gan ennyn gwerthfawrogiad o etifeddiaeth ddiwylliannol Cymru.

## 1.5 Y Cwricwlwm Ehangach

Mae'r Gymraeg yn ei hanfod yn bwnc sydd yn mynnu bod ymgeiswyr yn ystyried materion ysbrydol, moesol, moesegol, cymdeithasol a diwylliannol wrth ddarllen, astudio a thrafod ystod o lenyddiaeth. Mae'r fanyleb hon yn darparu fframwaith i archwilio materion o'r fath ac mae'r cynnwys penodol sydd ynddi'n caniatáu i gyrsiau unigol i roi sylw i'r materion hynny. Cyfyd y cyfleoedd hyn wrth astudio, er enghraifft, Ffilm (CA1), Drama (CA4), Barddoniaeth (CA3 a CA6) a Straeon Byrion (CA5).

Trwy gyfrwng ystod eang o farddoniaeth gyfoes (CA3, CA6), gwaith y dramodydd Saunders Lewis (CA4), yr awduron Mihangel Morgan a Ioan Kidd (CA5) a'r ffilm Hedd Wyn (CA1) a thrwy ganolbwyntio ar yr iaith fel cyfrwng cyfathrebu naturiol a pherthnasol cyflwynir rhaglen waith a fydd yn atgyfnerthu ac yn ehangu ymwybyddiaeth yr ymgeiswyr o le'r Gymraeg, iaith fyw hynaf cyfandir Ewrop, yn y cyd-destun Ewropeaidd.

## 1.6 Cyfuniadau a waherddir a gorgyffwrdd â chymwysterau eraill

Ar gyfer pob manyleb, rhoddir cod dosbarthu cenedlaethol sy'n nodi i ba faes pynciol y mae'n perthyn. Dylai canolfannau nodi, yn achos yr ymgeiswyr hynny sy'n cofrestru am fwy nag un cymhwyster TAG gyda'r un cod dosbarthu, mai un radd yn unig (yr uchaf) a gyfrifir at ddibenion Tablau Perfformiad Ysgolion a Cholegau. Cod dosbarthu'r fanyleb hon yw 5515.

Nid oes unrhyw orgyffwrdd sylweddol rhwng y fanyleb hon ac unrhyw un arall. Ni waherddir unrhyw gyfuniad. Ni chaiff ymgeiswyr ar gyfer yr arholiad hwn sefyll arholiad UG nac Uwch Cymraeg Iaith Gyntaf. Ni chaiff ymgeiswyr a safodd arholiadau TGAU Cymraeg a / neu TGAU Llenyddiaeth Gymraeg sefyll yr arholiad hwn.

## 1.7 Cydraddoldeb ac Asesiad Teg

Yn aml yn yr UG/Safon Uwch, bydd gofyn asesu amrediad eang o gymwyseddau. Gwneir hyn oherwydd eu bod yn gymwysterau cyffredinol a'u bod, felly, yn paratoi ymgeiswyr ar gyfer amrywiol yrfaoedd a chyrsiau ar lefel uwch.

Adolygwyd y meini prawf cymhwyster a phwnc UG/Safon Uwch er mwyn ystyried a fyddai unrhyw un o'r cymwyseddau oedd eu hangen yn y pwnc yn eithrio ymgeiswyr anabl rhag sefyll y pwnc hwnnw. Mewn achosion o'r fath, adolygwyd y sefyllfa eto i wneud yn siŵr bod cymwyseddau o'r fath ond yn cael eu cynnwys pan oedd gwneud hynny'n hanfodol i'r pwnc. Trafodwyd casgliadau'r broses hon gyda grwpiau'r anabl a phobl anabl eu hunain.

Yn y Gymraeg Ail Iaith mae gofyn asesu sgiliau siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu. Gall fod yn anodd i rai agweddau ar yr asesiad fod o fewn cyrraedd rhai o'r ymgeiswyr, ac efallai na fydd yn bosibl gwneud unrhyw addasiadau rhesymol, fel a ganlyn:

- Siarad a Gwrando – rhai ymgeiswyr gyda nam ar y llefarydd a rhai ymgeiswyr gyda nam ar y clyw nad ydynt yn gallu darllen gwefusau.
- Darllen – rhai ymgeiswyr â nam ar y golwg nad ydynt yn gallu darllen Braille.

Gwneir addasiadau rhesymol ar gyfer ymgeiswyr anabl fel bod yr asesiadau o fewn eu cyrraedd. O'r herwydd, ychydig iawn o ymgeiswyr fydd yn cael eu hatal yn llwyr rhag sefyll unrhyw ran o'r asesiad. Mae gwybodaeth ar addasiadau rhesymol i'w chael yn nogfen y Cyd-gyngor Cymwysterau, Rheoliadau ac Arweiniad Yn Ymwneud ag Ymgeiswyr sy'n Gymwys am Addasiadau mewn Arholiadau. Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan y CGC (www.jcq.org.uk).

Mae'n bosibl y bydd ymgeiswyr na fydd rhan sylweddol o'r asesiad o fewn eu cyrraedd o hyd, hyd yn oed ar ôl archwilio pob posibilrwydd trwy addasiadau rhesymol, ond y bydd modd iddynt dderbyn dyfarniad. Byddent yn cael gradd wedi'i seilio ar y rhannau o'r asesiad a gymerwyd ganddynt a nodir ar eu tystysgrif nad yw'r holl gymwyseddau wedi'u cyflawni.

# 2 NODAU

Mae'r fanyleb Uwch Gyfrannol a Safon Uwch mewn Cymraeg Ail Iaith yn annog myfyrwyr i:

- ddangos diddordeb, pleser a brwdfrydedd wrth astudio'r Gymraeg
- cyfathrebu'n gywir ac yn rhugl ar lafar ac yn ysgrifenedig mewn ystod eang o sefyllfaoedd a chyd-destunau
- ysgrifennu'n greadigol a ffeithiol i amrywiaeth o bwrpasau
- dadansoddi testunau cyfarwydd ac anghyfarwydd yn annibynnol
- gwrando ac ymateb i farn eraill wrth fynegi safbwynt
- mynegi barn annibynnol, yn seiliedig ar wybodaeth a dealltwriaeth o ystod o destunau llenyddol a ffeithiol
- ymateb yn glir, yn berthnasol, yn hyderus ac yn strwythuredig yn y Gymraeg
- cymryd eu lle priodol mewn cymdeithas ddwyieithog ar ddechrau'r unfed ganrif ar hugain.

Yn ogystal, mae'r fanyleb Safon Uwch mewn Cymraeg Ail Iaith yn annog ymgeiswyr i wneud cysylltiadau rhwng gwahanol elfennau'r pwnc a darparu sylfaen addas i ganiatáu i ymgeiswyr barhau i astudio'r iaith yn y dyfodol.

# 3 AMCANION ASESU

Rhaid i ymgeiswyr gwrdd â'r amcanion asesu canlynol yng nghyd-destun y cynnwys y manylir arno yn Adran 4 y fanyleb:

| Amcanion Asesu | | Pwysoli |
|---|---|---|
| **AA1** | **Defnyddio iaith lafar**<br>• Llefaru'r iaith yn gywir ac yn hyderus, gan arddangos ystod o adnoddau iaith; mabwysiadu'r cywair ieithyddol priodol yn ôl y cyd-destun.<br>• Gwrando'n astud; codi cwestiynau a datblygu safbwyntiau a syniadau'n gytbwys.<br>• Rhyngweithio, crynhoi a dod i gasgliadau cytbwys. | **25%** |
| **AA2** | **Ymateb i destunau**<br>• Arddangos gwybodaeth am destunau penodedig a'u cefndir, eu dehongli a mynegi barn arnynt gan drafod a gwerthuso dehongliadau eraill.<br>• Gwerthfawrogi gwahanol ffurfiau llenyddol.<br>• Ymateb i destunau llenyddol, llunyddol a ffeithiol, ar lafar ac yn ysgrifenedig, yn gydlynus gan ddewis a dethol deunydd perthnasol a'i ddehongli.<br>• Cyfeirio'n benodol at y testun gwreiddiol gan gyfiawnhau'r cyfeiriad.<br><br>Hefyd, bydd pob ymgeisydd Safon Uwch yn:<br>• Cyfuno, cymharu a gwerthuso gwybodaeth a gyflwynir drwy wahanol gyfryngau, croesgyfeirio o'r naill destun i'r llall, crynhoi a dod i gasgliad cytbwys. | **25%** |
| **AA3** | **Defnyddio iaith ysgrifenedig**<br>• Ysgrifennu'n gywir, eglur a graenus gan arddangos ystod o adnoddau iaith.<br>• Defnyddio gwybodaeth am ramadeg yn effeithiol mewn amryfal gyd-destunau.<br>• Dangos ymwybyddiaeth o wahanol gyweiriau iaith a defnyddio'r iaith yn hyderus mewn gwahanol sefyllfaoedd ac at wahanol ddibenion. | **50%** |

Mae'r amcanion asesu yn gymwys i'r fanyleb gyfan.

**Dangosir pwysiadau'r amcanion asesu fel % o'r Safon Uwch lawn – (UG mewn cromfachau)**

| Pwysiad yr Uned | % | AA1% | AA2% | AA3% |
|---|---|---|---|---|
| **C1** | **(40) 20** | **15** | **5** | |
| **C2** | **(30) 15** | | | **15** |
| **C3** | **(30) 15** | | **5** | **10** |
| **C4** | **15** | **10** | **5** | |
| **C5** | **20** | | **5** | **15** |
| **C6** | **15** | | **5** | **10** |
| **Cyfanswm** | **100** | **25** | **25** | **50** |

# 4 CYNNWYS Y FANYLEB

Mae manylebau UG a Safon Uwch mewn Cymraeg Ail Iaith yn adeiladu ar y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau a nodir ar gyfer cymwysterau TGAU haen uwch mewn Cymraeg Ail Iaith. Serch hynny, gall ymgeiswyr fod wedi caffael y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau heb fod wedi ennill y cymwysterau.

**Gwybodaeth a Dealltwriaeth**

Mae'r fanyleb UG ac Uwch yn mynnu bod ymgeiswyr yn arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o:

- strwythurau, gramadeg a phatrymau'r iaith lafar a'r iaith ysgrifenedig fel y'u nodir yn Atodiad 1 oddi mewn i gyd-destunau ystyrlon
- cywair a phriodoldeb iaith ac arddull ystod o ddarnau ffeithiol sy'n ymwneud â'r byd cyfoes
- cynnwys, ffurf ac arddull llên y cyfryngau ac ystod o farddoniaeth a rhyddiaith
- diwylliant traddodiadol Cymru.

**Sgiliau**

Mae manylebau UG a Safon Uwch hefyd yn mynnu bod ymgeiswyr, yn llafar ac yn ysgrifenedig, yn:

- arddangos cywirdeb wrth ddefnyddio cystrawen a gramadeg yr iaith mewn amrywiaeth o ffurfiau a chyd-destunau ac i ystod o gynulleidfaoedd a phwrpasau
- defnyddio iaith yn y cywair priodol mewn ystod eang o gyd-destunau at ddibenion creadigol, i drafod llenyddiaeth, i drawsieithu ac i amrywiaeth o ddibenion ymarferol gan roi ystyriaeth i'r pwrpas a'r gynulleidfa
- trafod, ystyried ac ymateb i safbwyntiau a barn eraill er mwyn dod i gasgliadau cytbwys
- defnyddio geiriaduron yn briodol ond hefyd yn arddangos y gallu i gyfleu ystyr heb gyfeirio atynt
- dadansoddi'n feirniadol a chyfleu ymateb personol i destunau a darnau cyfarwydd gan ddefnyddio termau addas
- dewis yn berthnasol o destun wrth drafod, er mwyn egluro ac enghreifftio safbwyntiau personol
- trafod ac ymateb i'r diwylliant cyfoes amlgyfrwng megis theatr, darlledu, ffilm a newyddiaduraeth
- trafod agweddau a gwerthoedd mewn testunau.

Bydd yr astudiaeth hon yn gosod sylfeini cadarn ar gyfer astudiaeth bellach tra ar yr un pryd yn datblygu sgiliau addas i'r gweithle.

Hefyd, mae manylebau U2 yn mynnu bod ymgeiswyr yn:

- arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o ystod ehangach o farddoniaeth a rhyddiaith o ran ffurf a thema
- arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth fwy manwl gywir o gywirdeb a rheolau gramadeg yr iaith fel y'u nodir yn Atodiad 1 a defnyddio ystod ehangach o eirfa a phriod-ddulliau
- cymharu darnau neu destunau er mwyn deall a gwneud sylwadau ar yr hyn sy'n gyffredin ac yn wahanol rhyngddynt gan arddangos y gallu i ddadansoddi llenyddiaeth yn feirniadol, cyfleu ymateb personol a defnyddio termau addas
- arddangos gwybodaeth ehangach a dealltwriaeth ddyfnach o'r maes
- arddangos sgiliau wedi eu mireinio a'u datblygu ymhellach.

## Uwch Gyfrannol

## 4.1 CA1 Y Ffilm a Llafaredd Arholiad Llafar - tua ½ awr

**Nodiadau i Athrawon**

- Asesiad allanol yw hwn. Er hynny dylai athrawon asesu cyrhaeddiad disgybl yn fewnol yn ystod y flwyddyn.
- Bydd arholwr allanol yn ymweld â phob canolfan yn ystod tymor yr Haf. Defnyddir asesiad y ganolfan fel canllaw i gynorthwyo'r arholwr, ond gan yr arholwr yn unig y bydd yr hawl i bennu marciau terfynol yr ymgeiswyr.
- Arholir yr ymgeiswyr mewn parau/grwpiau heb fod yn fwy na thri ymgeisydd. Dewisir y grwpiau yn ôl gallu'r ymgeiswyr neu ddoethineb yr arholwr. Lle nad oes ond un ymgeisydd arholir ef yn unigol gan yr arholwr. Lle ceir grwpiau o dri bydd yr arholiad yn parhau am tua hanner awr. Dyfernir marciau allan o 60.

**Swyddogaeth yr arholwr**

**Lle bo angen**

- sbarduno trafodaeth;
- hybu newid cyfeiriad y drafodaeth;
- gofyn i ymgeisydd gynnig tystiolaeth i gadarnhau syniadau neu ddatblygu dadl;
- sicrhau bod pob ymgeisydd yn cael cyfle i ymateb.

Wrth asesu'r ymgeiswyr yn yr Arholiad Llafar ystyrir eu gallu i arddangos gwybodaeth benodedig o'r ffilm a'i chefndir, gwrando'n astud ar eraill, codi cwestiynau, datblygu safbwyntiau, rhyngweithio a dod i gasgliadau. Yn ogystal ystyrir eu gallu i lefaru'r iaith yn gywir a graenus yn y cywair priodol gan ystyried y pwrpas a'r gynulleidfa.

**Trefn yr arholiad**

**A. Cynhesu'r disgyblion trwy drafod y diwylliant cyfoes amlgyfrwng yng Nghymru.**
Disgwylir i'r ymgeiswyr allu trafod y meysydd canlynol ar ôl ymwneud â nhw'n rheolaidd yn ystod y cwrs:

- y theatr
- darlledu (radio a theledu)
- ffilm e.e. Solomon a Gaenor, Y Dylluan Wen, Branwen, Gadael Lenin.

**B. Trafod ffilm - Hedd Wyn (Alan Llwyd)**
Gall yr arholwr ofyn i'r ymgeiswyr ymdrin â phynciau megis y rhai a ganlyn:

- trafod cymeriadau, olrhain eu datblygiad a chymharu cymeriadau â'i gilydd;
- trafod golygfeydd allweddol;
- manylu ynghylch y defnydd o lun a sain neu gerddoriaeth gefndirol;
- trafod bwriadau'r awdur a'r cynhyrchydd;
- trafod themâu a geir yn y ffilm;
- mynegi barn ac ymateb i'r gwaith fel cyfanwaith.

Bydd rhyddid gan ymgeiswyr gyfeirio at ffilm(iau)/dramau eraill ac at lenyddiaeth a ddarllenwyd. Dylid hyfforddi ymgeiswyr i ddyfynnu a defnyddio termau gwerthfawrogi llunyddiaeth yn briodol.

**C. Trafod themâu sy'n deillio o'r ffilm**
Bydd yr arholwr hefyd yn gofyn i'r ymgeiswyr ymhelaethu ar y pynciau/themâu sy'n deillio o'r ffilm gan ymateb yn ôl y gofyn.

Bydd gan CBAC yr hawl i newid y ffilm a astudir. Rhoddir rhybudd digonol pan wneir hynny.

## 4.2 CA2 Gwaith Cwrs Ysgrifenedig (Asesiad Mewnol)

**Y Dasg**

Gofynnir i bob ymgeisydd lunio Pecyn ar **un** o'r canlynol:

- ardal benodol
- elfen gymdeithasol
- elfen ddiwylliannol
- elfen alwedigaethol
- elfen hanesyddol
- elfen wleidyddol

Gall y testun a ddewisir fod o ddiddordeb lleol neu genedlaethol, yn draddodiadol neu'n gyfoes ei apêl.

**Canllawiau i'r Dasg**

Bydd y Pecyn yn canolbwyntio ar, ac yn cyflwyno i'r darllenydd elfennau o'r testun y mae'r ymgeisydd wedi ymddiddori ynddynt gan gynnwys sylwadau personol a pherthnasol wrth wneud hynny. Wedi darllen y gwaith dylai'r darllenydd fod yn deall y testun dan sylw ac yn gwybod am agwedd yr ymgeisydd tuag at y testun.

Rhaid i'r Pecyn Gwybodaeth gynnwys o leiaf **4** darn estynedig o'r ffurfiau canlynol:

- adroddiad papur newydd
- erthygl i gylchgrawn
- portread
- stori/hanesyn
- sgwrs
- llythyr
- dyddiadur.

Rhaid i **1** darn gael ei gwblhau fel tasg o dan amodau arbennig.

Yn ychwanegol at hyn, dylid cynnwys deunyddiau ychwanegol fel holiadur, deunydd cyhoeddusrwydd a negeseuon e-bost.

- Rhaid i'r testun fod yn Gymreig.
- Dylai'r wybodaeth gael ei chyflwyno mewn arddull bersonol gyda'r ymgeisydd yn cyflwyno ei safbwynt ei hun yn ei eiriau ei hun.
- Disgwylir gweld ôl ymchwil, dadansoddi, cymharu a dewis a dethol yn y gwaith ond gyda gogwydd bersonol yr ymgeisydd yn llywodraethu.
- Dylai unrhyw luniau/mapiau/atgynhyrchiad llunyddol gael eu defnyddio'n briodol, felly hefyd unrhyw ddyfyniadau.
- Rhaid i'r pecyn cyfan fod rhwng 2000 a 3000 o eiriau. Dylai hyn gynnwys 1 darn o ysgrifennu rhwng 500 - 700 o eiriau wedi ei gwblhau fel tasg o dan amodau arbennig. Ni ddylid ail ddrafftio'r gwaith ar unrhyw gyfrif.
- Rhaid i'r dasg o dan amodau arbennig gael ei chwblhau o fewn 2 awr yn yr ystafell ddosbarth. Gall yr ymgeiswyr weithio ar weddill y pecyn yn y dosbarth ac/neu yn y cartref.
- Disgwylir gweld penawdau ac is-benawdau yn cael eu defnyddio'n briodol ac yn effeithiol wrth drefnu'r gwaith, ac wrth gyflwyno elfennau o fewn y testun.
- Dylid caniatáu i'r ymgeisydd drafod cynnwys y pecyn gyda'r athro/athrawes a chynhyrchu'r gwaith ar brosesydd geiriau.
- Caniateir defnyddio geiriaduron, cyfeirlyfrau, testunau llenyddol a gweledol ac unrhyw ddogfennau/cyfryngau perthnasol eraill.
- Rhaid cynnwys blaendudalen yn nodi cynnwys ac ôl-dudalen yn nodi unrhyw lyfryddiaeth a ddefnyddiwyd.

**Gweler Canllawiau Asesu Mewnol yn Adran 8 – tudalen 29**

## 4.3 CA3 Defnyddio'r Iaith a Barddoniaeth Arholiad ysgrifenedig (2 awr)

Ni chaniateir defnyddio geiriaduron na chopïau o'r cerddi yn yr arholiad.
Disgwylir i ymgeiswyr ateb dau gwestiwn.

**Cwestiwn 1: Defnyddio'r Iaith**

Gosodir y cwestiynau canlynol:

a) Llunio brawddegau i ddangos yn eglur ystyron geiriau tebyg a phriod-ddulliau.
b) Cywiro gwallau mewn brawddegau. Bydd y gwallau eisioes wedi'u tanlinellu. Ni fydd yn rhaid rhoi esboniad am y gwall.
c) Ysgrifennu'n bersonol ar bwnc penodol.

Gellir ystyried defnyddio'r llyfr *Cymraeg Da* (Heini Gruffudd) wrth baratoi ar gyfer y cwestiwn hwn.

Er mwyn gallu ateb y cwestiynau hyn disgwylir i ymgeiswyr wybod, deall a gallu defnyddio'r canlynol:

**Priod-ddulliau**

| | | |
|---|---|---|
| ail law | cyn bo hir | o ddrwg i waeth |
| ar ben | crynu yn ei sgidiau | mae hi ar ben |
| ar ben ei gilydd | dal ati | mae hi wedi canu arna i |
| ar ei ben ei hun | ddim hanner call | mae hiraeth arno |
| ar gael | dro ar ôl tro | mae'n dda ganddo fe |
| arllwys y glaw | dysgu ar gof | man a man |
| ar y blaen | dweud y drefn wrth | o'r golwg |
| ar bob cyfrif | gair am air | pwyso a mesur |
| ar bigau'r drain | gorau po gynta | rhag ofn |
| ar ei golled | gwell hwyr na hwyrach | rhoi'r gorau i |
| a'i wynt yn ei ddwrn | gwenu o glust i glust | uchel ei gloch |
| bob amser | gwneud ei orau glas | wrth ei fodd |
| cael ei weld | gwneud y tro | unwaith ac am byth |
| codi ofn ar | hen bryd | yn awr ac yn y man |
| | | yma ac acw |

**Geiriau tebyg**

| | | |
|---|---|---|
| a / ac | ffôn / ffon | prif / pryf |
| ac / ag | gem / gêm | prydau / prydiau |
| ar / a'r / â'r | glan / glân | sir / sur |
| â / a | hun / hyn / hŷn | sudd / sydd |
| adnabod / gwybod | i'w / yw | tal / tâl |
| bai / bae | melin / melyn | tan / tân |
| cau / cae | mor / môr | ti / tŷ |
| Cymraeg / Cymreig | nac / nag | ton / tôn |
| Cymru / Cymry | nith / nyth | tonnau / tonau |
| ei / eu | pa / pwy | |

**Ffurfiau Berfol**

***Y Ferf Bod***
rwy'n / rydw i (Presennol)
rydw i wedi (Perffaith)
rydw i wedi bod (Perffaith parhaol)
roeddwn i (Amherffaith)
roeddwn i wedi (Gorberffaith)
roeddwn i wedi bod (Gorberffaith parhaol)
byddwn i (Amhenodol)
bydda i (Dyfodol)
bûm / bues (Gorffennol)

***Berfau eraill***

(ffurfiau cwmpasog, presennol ac amhersonol)

rwy'n clywed (Presennol)
bydda i'n gobeithio (Dyfodol)
rydw i wedi clywed (Perffaith)
roeddwn i'n cysgu (Amherffaith)
byddwn yn chwerthin (Amhenodol)
byddwn i wedi prynu (Amhenodol perffaith)
byddwn i wedi bod yn cerdded (Amhenodol perffaith parhaol)
bûm / bues i'n darllen (Gorffennol)
roeddwn i wedi gweld (Gorberffaith)
dere / tyrd / ewch (Gorchmynnol)
(ail un. ac ail llu.)

***Berfau diffygiol***
dylwn, perthyn, piau,

**Enwau**
Ffurfiau unigol a lluosog,
gwrywaidd a benywaidd

**Rhifolion a threfnolion**
tri deg plentyn (Dull degol)
pum munud ar hugain i un ar ddeg (Dull traddodiadol y rhifolion ar gyfer deunaw punt, amser ac arian (11-25 yn unig)
pymthegfed (Y trefnolion un gair)
tri bachgen a thair merch (Ffurfiau gwrywaidd a benywaidd)
dwy flynedd, dwy flwydd oed (Rhifolion + blwyddyn)

**Arddodiaid**
Clywais amdani hi (Rhedeg a defnyddio arddodiaid)
bod yn garedig wrth (Ansoddeiriau + arddodiaid)
Enwau + arddodiaid
talu am, siarad â, cyffwrdd â (Berfau + arddodiaid)
ar glo, ar fyr rybudd, ar goll (Arddodiaid mewn ymadroddion aml eu defnydd)
Cystrawennau aml eu defnydd yn dilyn arddodiaid (gweler is-gymalau adferfol)

**Ansoddeiriau**
afal coch, hen ysgol (Safle arferol yr ansoddair + y prif eithriadau)
stori fer, y bechgyn eraill, mwyar duon (Ffurfiau benywaidd a lluosog aml eu defnydd)
eithaf da, bron cystal (Goleddfu ansoddeiriau)
mor dawel, tawelach, tawelaf (Cymharu ansoddeiriau – pob gradd ond gan ddefnyddio "mor" yn unig yn y radd gyfartal)
yn gryf fel ceffyl (Cyffelybiaethau)
Cysgwch yn dawel (Ansoddeiriau fel adferfau)

**Rhagenwau**
fi, ti (Rhagenwau syml)
fy, dy (Rhagenwau blaen)
i, di (Rhagenwau ategol)
hwn, hon, hyn, yma, yna, acw (Rhagenwau dangosol)
Pwy? Pa? (Rhagenwau gofynnol)
fy hun, dy hun (Rhagenwau atblygol)

**Adferfau**
ddoe, eleni, heno, weithiau (Adferfau amser cyffredin)

**Is- gymalau**
Rwy'n gwybod dy fod wedi gadael (Cymalau enwol gyda ffurfiau 'bod')
Dyna'r ferch sy'n canu (Cymalau ansoddeiriol gyda ffurfiau cwmpasog y ferf)
Cymalau adferfol ar ôl: pan, tra, pryd y, fel y, ag / nag y, trwy, wrth, ar ôl, nes y, cyn, erbyn, rhag ofn, o achos, oherwydd.

**Y Treigladau**
Y Treiglad Meddal – enwau, ansoddeiriau a berfau.
Y Treiglad Trwynol
Y Treiglad Llaes.

Disgwylir i ymgeiswyr allu defnyddio holl ffurfiau'r arddodiaid a rhagenwau a ddefnyddir mewn priod-ddulliau (e.e. ar ei ben ei hun, ar dy ben dy hun ac ati) yn ogystal â defnyddio ffurfiau negyddol a gofynnol y berfau a restrir.

**Cwestiwn 2: Barddoniaeth**

Nodir isod enwau'r cerddi i'w hastudio.

Gosodir cwestiwn ar y farddoniaeth isod. Wrth ymateb yn bersonol disgwylir i ymgeiswyr drin y materion canlynol: cynnwys y cerddi, themâu, arddull ac agwedd y bardd at fywyd. Yn ogystal disgwylir i'r ymgeiswyr ystyried dehongliadau eraill (disgyblion eraill, athrawon a beirniaid llenyddol) a dylid eu hyfforddi i ddyfynnu a defnyddio termau beirniadaeth lenyddol yn briodol.

Wrth drafod y farddoniaeth dylid hyfforddi ymgeiswyr i ddefnyddio iaith yn y cywair priodol gan roi ystyriaeth i'r pwrpas a'r gynulleidfa.

- Y Ffatri'n Cau – Gwyn Thomas (*Poeth* (Lolfa))
- Gail Fu Farw – Nesta Wyn Jones (*Poeth* (Lolfa))
- Glas – Bryan Martin Davies (*Hoff Gerddi Cymru* (Gomer))
- Diwrnod y Gêm Genedlaethol – Myrddin ap Dafydd (*Poeth* (Lolfa))
- Mae gen i freuddwyd – Gwyn Thomas (*Poeth* (Lolfa))
- Ailgylchu – Grahame Davies (*Cerddi'r Cewri* (Gomer))
- Cilmeri – Gerallt Lloyd Owen (*Poeth* (Lolfa))

Bydd gan CBAC yr hawl i newid y cerddi a astudir. Rhoddir rhybudd digonol pan wneir hynny.

## Safon Uwch

## 4.4 CA4 Y Ddrama a Llafaredd Arholiad Llafar - tua ½ awr

**Nodiadau i Athrawon**

- Asesiad allanol yw hwn. Er hynny dylai athrawon asesu cyrhaeddiad disgybl yn fewnol yn ystod y flwyddyn.
- Bydd yr arholwr allanol yn ymweld â phob canolfan yn ystod tymor yr haf. Defnyddir asesiad y ganolfan fel canllaw i gynorthwyo'r arholwr, ond gan yr arholwr yn unig y bydd yr hawl i bennu marciau terfynol yr ymgeiswyr.
- Arholir yr ymgeiswyr mewn parau/grwpiau heb fod yn fwy na thri ymgeisydd. Dewisir y grwpiau yn ôl gallu'r ymgeiswyr neu ddoethineb yr arholwr. Lle nad oes ond un ymgeisydd arholir ef yn unigol gan yr arholwr. Lle ceir grwpiau o dri bydd yr arholiad yn parhau am tua hanner awr. Dyfernir marciau allan o 45.

**Swyddogaeth yr arholwr**
**Lle bo angen**
- sbarduno trafodaeth;
- hybu newid cyfeiriad y drafodaeth;
- gofyn i ymgeisydd gynnig tystiolaeth i gadarnhau syniadau neu ddatblygu dadl;
- sicrhau bod pob ymgeisydd yn cael cyfle i ymateb.

Wrth asesu'r ymgeiswyr yn yr Arholiad Llafar ystyrir eu gallu i arddangos gwybodaeth benodedig o'r ddrama a'i chefndir, gwrando'n astud ar eraill, codi cwestiynau, datblygu safbwyntiau, rhyngweithio a dod i gasgliadau. Yn ogystal ystyrir eu gallu i lefaru'r iaith yn gywir a graenus yn y cywair priodol gan ystyried y pwrpas a'r gynulleidfa.

**Trefn yr arholiad**

**A. Cynhesu'r disgyblion trwy drafod y diwylliant cyfoes amlgyfrwng yng Nghymru.**
Disgwylir i'r ymgeiswyr allu trafod y meysydd canlynol:
- y theatr
- darlledu ar y we fyd eang
- ffilm
- newyddiaduraeth Gymraeg e.e. cylchgronau, papurau bro, Y Cymro, Golwg, Lingo.

**B. Trafod drama**
Saunders Lewis: *Siwan*

Gall yr arholwr ofyn i'r ymgeiswyr ymdrin â rhai o'r pynciau a ganlyn:

- dadansoddi cymeriadau, olrhain eu datblygiad a chymharu cymeriadau â'i gilydd;
- manylu ar olygfeydd allweddol;
- damcaniaethu ynglŷn â bwriadau'r dramodydd;
- manylu ar y themâu a geir yn y ddrama;
- mynegi barn ac ymateb i'r gwaith fel cyfanwaith.

Bydd rhyddid gan ymgeiswyr gyfeirio at ddramâu eraill ac at lenyddiaeth a ddarllenwyd. Dylid hyfforddi ymgeiswyr i ddyfynnu a defnyddio termau gwerthfawrogi llenyddiaeth yn briodol.

Bydd disgwyl i'r ymgeiswyr ymateb yn bersonol yn ogystal â thrafod dehongliadau eraill (disgyblion eraill, athrawon a beirniaid llenyddol), a dylid eu hyfforddi i ddyfynnu a defnyddio termau gwerthfawrogi llenyddiaeth yn briodol.

**C. Asesiad Synoptig**
Bydd yr arholwr hefyd yn gofyn cwestiwn i'r ymgeiswyr a fydd yn mynnu eu bod yn arddangos ac yn cymhwyso dealltwriaeth o'r cysylltiadau rhwng gwahanol agweddau ar y Gymraeg drwy gyfuno a chyd-gysylltu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau a ddatblygwyd yn y pwnc.

Bydd gan CBAC yr hawl i newid y ddrama a astudir. Rhoddir rhybudd digonol pan wneir hynny.

## 4.5 CA5 Y Stori Fer a Thrawsieithu Arholiad ysgrifenedig (1¾ awr)

Ni chaniateir defnyddio geiriaduron na chopïau o'r straeon yn yr arholiad.
Disgwylir i ymgeiswyr ateb dau gwestiwn.

**Adran A: Y Stori fer.**

Dylai ymgeiswyr arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r straeon canlynol.

- Pwy Fyth a Fyddai'n Fetel (*Saith Pechod Marwol*: Mihangel Morgan)
- Pe Bai'r Wyddfa i Gyd yn Gaws (*Saith Pechod Marwol*: Mihangel Morgan)
- Yr Ymwelydd (*O'r Cyrion*: Ioan Kidd)
- Angladd yn y Wlad (*O'r Cyrion*: Ioan Kidd)

Y nod yw dysgu'r sgil o werthfawrogi ystod o straeon. Wrth ymateb yn bersonol disgwylir i ymgeiswyr drin a thrafod y materion canlynol: cynnwys y straeon, themâu ac arddull yr awdur. Yn ogystal, disgwylir i ymgeiswyr ysgrifennu'n bersonol ar bwnc fydd yn codi'n benodol o'r straeon.

Yn y cwestiwn hwn, disgwylir i ymgeiswyr ddadansoddi'n feirniadol a chyfleu ymateb personol i gynnwys y straeon gan ddefnyddio termau addas. Wrth drafod y straeon felly, dylid hyfforddi ymgeiswyr i ddefnyddio iaith yn y cywair priodol gan roi ystyriaeth i'r pwrpas a'r gynulleidfa.

Bydd gan CBAC yr hawl i newid y straeon a astudir. Rhoddir rhybudd digonol pan wneir hynny.

**Adran B: Trawsieithu (asesiad synoptig)**

Gofynnir i'r ymgeiswyr ddarllen deunydd Saesneg ac ymateb i'r deunydd hwnnw drwy ysgrifennu yn y Gymraeg. Gellir gofyn am ymateb ar ffurf llythyr, erthygl neu lunio taflen wybodaeth. Bydd yn ofynnol i'r ymgeiswyr ddeall a dehongli'r cynnwys ac yna fynegi barn ar y testun. Disgwylir iddynt fod yn ymwybodol o'r gynulleidfa y maent yn ysgrifennu ar ei chyfer. Ni ddylid cyfieithu'r darnau.

Bydd y darnau darllen yn ymwneud â naill ai newyddion y dydd, neu faterion cyfoes neu ddelwedd o Gymru a'r byd. Gellir darllen erthyglau yn y gwahanol gylchgronau a hefyd drawsysgrifau rhaglenni materion cyfoes ar y radio/teledu wrth baratoi ar gyfer y cwestiwn hwn.

## 4.6 CA6 Defnyddio'r Iaith a Gwerthfawrogi Barddoniaeth
Arholiad ysgrifenedig (1¾ awr)

Ni chaniateir defnyddio geiriaduron na chopïau o'r cerddi yn yr arholiad.

Disgwylir i ymgeiswyr ateb dau gwestiwn.

**Adran A: Defnyddio'r Iaith**

Gosodir y cwestiynau canlynol:

(a) llunio brawddegau i ddangos yn eglur ystyr a defnydd ffurfiau berfol a chymalau arbennig;
(b) cyfieithu i'r Gymraeg frawddegau yn cynnwys eitemau iaith penodol.

Disgwylir i ymgeiswyr wybod, deall, a gallu defnyddio'r canlynol yn ychwanegol at y rhai a restrwyd yn CA3:

**Berfau**
***Ffurfiau Bod***

byddaf (Presennol arferiadol)
byddwn wedi mynd (Amhenodol perffaith)
byddwn wedi bod yn rhedeg (Amhenodol perffaith parhaol)
byddaf wedi paratoi (Dyfodol perffaith)
byddaf wedi bod yn cystadlu (Dyfodol perffaith parhaol)
pe bawn / pe bai / oni bai (Y modd dibynnol mewn priod-ddulliau a chystrawennau cyffredin aml eu defnydd)

***Berfau eraill*** - ffurfiau cryno, personol ac amhersonol

clywaf (Presennol)
byddaf yn gobeithio (Presennol arferiadol)
gobeithiaf (Dyfodol)
darllenwn (Amhenodol)
gofynnais (Gorffennol)

***Berfau diffygiol***
gorfod, geni

**Enwau**

cyngor, cynghorion, cynghorau (Enwau â dau ystyr i'r unigol ond â dwy ffurf wahanol yn y lluosog)

**Rhifolion a threfnolion**

deg plentyn ar hugain (Dull traddodiadol)

**Arddodiaid**

er ei mwyn hi, o'm hachos i (Rhedeg a defnyddio arddodiaid cyfansawdd)
Cystrawennau llai aml eu defnydd yn dilyn arddodiaid (gweler is-gymalau adferfol)

**Ansoddeiriau**

dyn unig / unig ddyn (Newid safle'r ansoddair yn newid ystyr)
oer / oeraidd (Ansoddeiriau tebyg ond ystyr gwahanol)
y tlodion (Ansoddeiriau fel enwau)
cyn gynted, cyn lleied, cyn ddued â, cystal â (Ffurfiau cyfartal cyn + ansoddair mewn ymadroddion aml eu defnydd gan gynnwys ffurfiau afreolaidd)
wedi blino'n lân, rhoi'r gorau i, mynd o ddrwg i waeth (Ansoddeiriau mewn priod-ddulliau)

**Rhagenwau**

minnau (Rhagenwau cysylltiol)
o ran hynny, o hyn allan (Ymadroddion yn cynnwys rhagenwau dangosol)
gilydd, naill…..llall / lleill, pawb / pob, holl (Rhagenwolion)

**Adferfau**

o'r diwedd, i fyny, ar frys (Adferfau yn dilyn arddodiaid)

**Is-gymalau**

Rwy'n gwybod iddo adael (Cymalau enwol a gyflwynir gan y/yr, i, na, mai)
Dyna'r ferch a ganodd (Cymalau perthynol gyda ffurfiau cryno'r ferf)
Cymalau adferfol ar ôl: er, pan, pe, os, oni, lle, y, wedi, er mwyn, gan, am, er, ers, oblegid, oddi ar, serch)

**Geiriau tebyg a phriod-ddulliau**

parod ei gymwynas, byr ei dymer, torchi llewys (Geiriau tebyg a phriod-ddulliau llai aml eu defnydd)

**Adran B: Gwerthfawrogi Barddoniaeth (asesiad synoptig)**

Disgwylir i'r ymgeiswyr ymateb i gerdd anghyfarwydd ar un o'r themâu canlynol:

- Cariad
- Cyfrifoldeb
- Cymru

Wrth ateb y cwestiwn a osodir disgwylir i ymgeiswyr ddadansoddi'n feirniadol a chyfleu ymateb personol i gynnwys y gerdd. Wrth drafod y farddoniaeth dylid hyfforddi ymgeiswyr i ddefnyddio iaith yn y cywair priodol gan roi ystyriaeth i'r pwrpas a'r gynulleidfa.

**Asesiad synoptig**

Bydd y cwestiwn hwn yn ogystal yn mynnu bod ymgeiswyr yn arddangos ac yn cymhwyso dealltwriaeth o'r cysylltiadau rhwng gwahanol agweddau ar y Gymraeg drwy gyfuno a chydgysylltu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau a ddatblygwyd yn y pwnc.

# 5 *Y CYNLLUN ASESU*

Bydd cymwysterau Uwch Gyfrannol ac Uwch ar gael i ymgeiswyr sy'n dilyn y fanyleb hon.

## Uwch Gyfrannol

Hanner cyntaf y cwrs Uwch yw'r cwrs Uwch Gyfrannol. Bydd yn cyfrannu 50% o gyfanswm y marciau ar gyfer safon Uwch. Mae'n ofynnol i ymgeiswyr gwblhau'r **dair uned** er mwyn ennill cymhwyster UG.

| | | Pwysiad o fewn UG | Pwysiad o fewn Safon Uwch |
|---|---|---|---|
| **CA1** | Y ffilm a llafaredd | 40% | 20% |
| **CA2** | Asesiad mewnol o waith cwrs ysgrifenedig | 30% | 15% |
| **CA3** | Defnyddio'r iaith a barddoniaeth | 30% | 15% |

## CA1 ARHOLIAD LLAFAR (tua ½ awr – grŵp o dri ymgeisydd)

**Y FFILM A LLAFAREDD**
Bydd yr ymgeiswyr yn trafod y ffilm *Hedd Wyn*. Asesir AA1 ac AA2 yn yr uned hon. Rhoddir 60 marc.

## CA2 ASESIAD MEWNOL O WAITH CWRS YSGRIFENEDIG

**GWAITH CWRS YSGRIFENEDIG**
Disgwylir i'r ymgeiswyr lunio pecyn rhwng 2,000 – 3,000 o eiriau a fydd yn cynnwys 1 dasg wedi ei chwblhau o dan amodau arbennig. Asesir AA3 yn yr uned hon. Rhoddir 40 marc.

## CA3 ARHOLIAD YSGRIFENEDIG (2 Awr)

**DEFNYDDIO'R IAITH A BARDDONIAETH**
Bydd Adran A yn canolbwyntio ar ddefnyddio'r iaith. Rhoddir 60 marc am yr adran hon. Asesir AA3.
Bydd Adran B yn gofyn iddynt drafod cynnwys, arddull a phwnc y cerddi gosod.
Rhoddir 60 marc am yr adran hon. Asesir AA2 ac AA3.

## Uwch

Mae'r fanyleb Safon Uwch yn cynnwys dwy ran: Rhan 1 (UG) a Rhan 2 (U2).

Gellir sefyll Rhan 1 (Uwch Gyfrannol) ar wahân a'i hychwanegu at U2 mewn sesiwn arholiad bellach er mwyn sicrhau cymhwyster Uwch, neu fel arall, gellir sefyll yr arholiadau UG ac U2 gyda'i gilydd yn yr un sesiwn.

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr gwblhau'r unedau UG a amlinellwyd uchod ynghyd â thair uned bellach er mwyn sicrhau cymhwyster Safon Uwch mewn Cymraeg Ail Iaith. Bydd yr unedau U2 yn cyfrannu 50% o gyfanswm y marciau ar gyfer Safon Uwch.

| | | Pwysiad o fewn U2 | Pwysiad o fewn Safon Uwch |
|---|---|---|---|
| **CA4*** | Y ddrama a llafaredd | 30% | 15% |
| **CA5*** | Y stori fer a thrawsieithu | 40% | 20% |
| **CA6*** | Defnyddio'r iaith a gwerthfawrogi barddoniaeth | 30% | 15% |

*yn cynnwys asesiad synoptig

## CA4 ARHOLIAD LLAFAR (tua ½ awr – grŵp o dri ymgeisydd)

**Y DDRAMA A LLAFAREDD**
Bydd yr ymgeiswyr yn trafod un testun – drama. Rhoddir 45 marc am drafod y ddrama.
Asesir AA1 ac AA2 yn yr uned hon.
Mae'r uned hon yn cynnwys asesiad synoptig wrth i'r ymgeiswyr wneud cysylltiadau rhwng gwahanol agweddau ar y pwnc e.e. dadansoddi themâu, gwerthfawrogi arddull a defnyddio iaith lafar. Dylai'r ymgeiswyr gyfeirio at weithiau y maent wedi eu darllen neu wedi eu gweld yn ogystal â'r testunau a astudiwyd.

## CA5 ARHOLIAD YSGRIFENEDIG (1 ¾ awr)

**Y STORI FER A THRAWSIEITHU**

Gosodir dau gwestiwn. Bydd Adran A yn canolbwyntio ar y stori fer. Gofynnir i'r ymgeiswyr drafod cynnwys ac arddull un o'r straeon byr gosod. Asesir AA2 ac AA3 yn Adran A. Bydd Adran B yn canolbwyntio ar y trawsieithu. Gofynnir i'r ymgeiswyr ymateb yn Gymraeg i ddarn darllen Saesneg. Asesir AA3 yn Adran B.
Rhoddir 40 marc yr un am bob adran.
Mae'r uned hon yn cynnwys asesiad synoptig wrth i'r ymgeiswyr wneud cysylltiadau rhwng gwahanol agweddau ar y pwnc e.e. defnyddio eu sgiliau gwerthfawrogi arddull a defnyddio iaith ysgrifenedig.

## CA6 ARHOLIAD YSGRIFENEDIG (1 ¾ awr)

**DEFNYDDIO'R IAITH A GWERTHFAWROGI BARDDONIAETH**
Bydd Adran A yn canolbwyntio ar ddefnyddio'r iaith. Rhoddir 45 marc am yr adran hon. Asesir AA3.
Bydd Adran B yn gofyn iddynt ymateb i gerdd anghyfarwydd. Rhoddir 75 marc am yr adran hon. Asesir AA2 ac AA3.
Mae'r uned hon yn cynnwys asesiad synoptig wrth i'r ymgeiswyr wneud cysylltiadau rhwng gwahanol agweddau ar y pwnc e.e. dadansoddi themâu, gwerthfawrogi arddull a defnyddio iaith lafar. Dylai'r ymgeiswyr gyfeirio at weithiau y maent wedi eu darllen neu wedi eu gweld yn ogystal â'r testunau a astudiwyd.

## Asesiad Synoptig

Bydd asesiad synoptig, sy'n profi dealltwriaeth ymgeiswyr o'r cysylltiadau rhwng gwahanol elfennau'r pwnc a'u dealltwriaeth gyfannol o'r pwnc, yn ofynnol ym mhob manyleb Safon Uwch. Yng nghyd-destun Cymraeg Ail Iaith mae hyn yn golygu y bydd ymgeiswyr yn arddangos ac yn cymhwyso dealltwriaeth o'r cysylltiadau rhwng gwahanol agweddau ar y Gymraeg drwy gyflwyno a chyd-gysylltu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau a ddatblygwyd yn y pwnc.

Bydd asesu synoptig yn ymwneud â:

- defnyddio iaith mewn amrywiol gyweiriau ieithyddol;
- cydgysylltu a gwerthuso ystod o destunau a gyflwynwyd trwy amrywiol gyfryngau;
- cynhyrchu ystod o waith ysgrifenedig wedi'i strwythuro i bwrpas ac wedi ei fynegi'n gywir.

## Ansawdd y Cyfathrebu Ysgrifenedig

Bydd yn ofynnol i ymgeiswyr arddangos eu gallu mewn cyfathrebu ysgrifenedig ym mhob uned asesu lle mae gofyn iddynt gynhyrchu deunydd ysgrifenedig estynedig: Gwaith cwrs ysgrifenedig, gwerthfawrogi barddoniaeth, gwerthfawrogi straeon byrion, trawsieithu ac ysgrifennu'n bersonol. Mae'r cynlluniau marcio ar gyfer yr unedau hyn yn cynnwys y meini prawf penodol canlynol ar gyfer asesu cyfathrebu ysgrifenedig.

- darllenadwyedd y testun; cywirdeb y sillafu, atalnodi a gramadeg; eglurder ystyr;
- dethol ffurf ac arddull ysgrifennu sy'n briodol i'r pwrpas ac i gymhlethdod y deunydd pwnc;
- trefnu'r wybodaeth yn glir ac yn gydlynol; defnyddio geirfa arbenigol lle y bo hynny'n briodol.

## Darpariaeth yr Unedau

| Darpariaeth yr Unedau Asesu | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Uned** | **Ionawr 2009** | **Mehefin 2009** | **Ionawr 2010 a phob blwyddyn wedi hynny** | **Mehefin 2010 a phob blwyddyn wedi hynny** |
| **CA 1** | | √ | | √ |
| **CA 2** | | √ | | √ |
| **CA 3** | √ | √ | √ | √ |
| **CA 4** | | | | √ |
| **CA 5** | | | | √ |
| **CA 6** | | | | √ |

## Dyfarnu, Adrodd ac Ail-sefyll

Bydd y graddau cyffredinol ar gyfer y cymwysterau TAG Uwch Gyfrannol mewn Cymraeg Ail Iaith yn cael eu cofnodi fel gradd ar y raddfa A i E. Bydd y graddau cyffredinol ar gyfer y cymwysterau TAG Uwch mewn Cymraeg Ail Iaith yn cael eu cofnodi fel gradd ar y raddfa A* i E. Bydd y canlyniadau sy'n methu â chyrraedd y safon isaf ar gyfer gradd yn cael eu cofnodi â'r llythyren U (annosbarthedig). Bydd canlyniadau uned unigol a'r dyfarniad pwnc cyffredinol yn cael eu mynegi fel marc unffurf ar raddfa sy'n gyffredin i bob cymhwyster TAG (gweler y tabl isod). Nodir y cywerthedd gradd â llythyren fach ((a) i (e)) ar y slipiau canlyniad, ond nid ar y tystysgrifau:

| | GMU Uchaf | A | B | C | D | E |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Unedau 1 a 5 (pwysiad 20%) | 120 | 96 | 84 | 72 | 60 | 48 |
| Unedau 2, 3, 4 a 6 (pwysiad 15 %) | 90 | 72 | 63 | 54 | 45 | 36 |
| Cymhwyster UG | 300 | 240 | 210 | 180 | 150 | 120 |
| Cymhwyster U | 600 | 480 | 420 | 360 | 300 | 240 |

Ar Safon Uwch, dyfernir Gradd A* i ymgeiswyr sydd wedi ennill Gradd A yn y cymhwyster Safon Uwch cyffredinol a 90% o gyfanswm y marciau unffurf ar gyfer yr unedau U2.

Gall ymgeiswyr ailsefyll yr unedau cyn yr ardystio ar gyfer y cymhwyster, a'r canlyniad gorau a ddefnyddir ar gyfer dyfarnu'r cymhwyster. Bydd oes y canlyniadau uned unigol, cyn ardystio'r cymhwyster, ond yn cael ei chyfyngu gan oes y fanyleb ei hun.

# 6 *SGILIAU ALLWEDDOL*

Mae Sgiliau Allweddol yn ganolog i astudio Cymraeg Ail Iaith ar gyfer UG a Safon Uwch, a gellir eu hasesu trwy gynnwys y cwrs a'r cynllun asesu perthnasol fel y'u diffinnir yn y fanyleb. Gellir datblygu'r sgiliau allweddol canlynol trwy gyfrwng y fanyleb hon ar lefel 3 (neu lefel 2 yn achos cyfathrebu):

- Cyfathrebu
- Datrys Problemau
- Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu
- Gweithio gydag Eraill
- Gwella Eich Dysgu a'ch Perfformiad Eich Hun

Darperir cyfleoedd i olrhain datblygiad y sgiliau hyn yn erbyn y gofynion tystiolaeth Sgiliau Allweddol yn yr 'Enghreifftio Sgiliau Allweddol ar gyfer Cymraeg Ail Iaith', sydd ar gael ar wefan CBAC.

# 7 DISGRIFIADAU GRADDAU

Mae'r disgrifiadau graddau a ganlyn yn dynodi'r lefel cyrhaeddiad sy'n nodweddiadol o safon y radd honno ar gyfer TAG Uwch. Gwelir ynddynt amcan cyffredinol o'r canlyniadau dysgu sy'n angenrheidiol ar gyfer y graddau a nodir. Mae'r disgrifiadau i'w dehongli yng nghyd-destun y cynnwys a welir yn y fanyleb; ni fwriadwyd y disgrifiadau i ddiffinio'r cynnwys hwnnw. Yn ymarferol, bydd y radd a ddyfernir yn dibynnu ar faint llwyddiant yr ymgeisydd i gwrdd â gofynion yr amcanion asesu'n gyffredinol. Gall diffygion mewn rhai agweddau o'r arholiad gael eu cydbwyso gan berfformiadau gwell mewn agweddau eraill.

**Uwch Gyfrannol**

**Ffin A/B**

AA1

Bydd ymgeiswyr yn:

- cyd-adweithio ag eraill yn hyderus
- arddangos blaengaredd wrth gynnal a datblygu trafodaeth yn ddigymell
- ymateb yn llawn i gyfraniadau eraill, gan resymu'n berthnasol
- mynegi barn yn hyderus a'i chefnogi â rhesymau dilys sy'n dangos ôl meddwl
- ynganu'n gywir ac yn glir
- defnyddio cystrawen lafar naturiol ac adnoddau iaith cadarn yn briodol.

AA2

Bydd ymgeiswyr yn:

- arddangos gwybodaeth o destunau penodedig a thrafod y technegau a ddefnyddir
- crynhoi ffeithiau perthnasol ac arddangos dealltwriaeth drwy eu cyflwyno'n gywir ac yn gydlynus
- arddangos dealltwriaeth gadarn o'r cysyniadau gan ddehongli a rhesymu'n ddeallus
- datblygu ac ehangu syniadau'n drefnus
- defnyddio dyfyniadau'n bwrpasol
- cyflwyno dadleuon gwreiddiol gan ymateb mewn modd aeddfed.

AA3

Bydd ymgeiswyr yn:

- mynegi'u hunain yn ddeallus, yn glir ac yn gywir mewn gwahanol sefyllfaoedd ac at wahanol ddibenion
- cynllunio'u gwaith yn ofalus
- rhoi sylw manwl i gywair, ffurf a chynulleidfa drwy amrywio'r arddull yn briodol
- mynegi barn yn glir, gan ei chefnogi â rhesymau dilys sy'n dangos ôl meddwl
- arddangos ystod eang o adnoddau iaith a gafael dda iawn ar ramadeg a chystrawen.

**Ffin E/U**

AA1

Bydd ymgeiswyr yn:

- siarad ag eraill
- cynnig rhai sylwadau
- ymateb yn syml iawn i gyfraniadau eraill
- mynegi barn uniongyrchol
- defnyddio ystod o eirfa a phatrymau iaith sylfaenol
- ynganu'n ddealladwy.

AA2

Bydd ymgeiswyr yn:

- arddangos gwybodaeth fras o destunau penodedig a thrafod yn syml rhai o'r technegau a ddefnyddir
- cyfeirio at ambell elfen benodol wrth ddatblygu syniadau am y gweithiau a drafodir
- cyflwyno dadleuon yn syml iawn
- dyfynnu'n achlysurol.

AA3

Bydd ymgeiswyr yn:

- mynegi eu hunain yn glir ar y cyfan mewn testunau uniongyrchol
- arddangos peth ymwybyddiaeth o drefn, dilyniant a chywair
- mynegi barn a'i chefnogi â rhesymau uniongyrchol
- defnyddio ystod o eirfa a phatrymau iaith addas; peth gafael ar ramadeg a chystrawen.

**Safon Uwch**

**Ffin A/B**

AA1

Bydd ymgeiswyr yn:

- cyd-adweithio ag eraill yn hyderus ac effeithiol
- arddangos blaengaredd wrth gynnal ac ymestyn y drafodaeth yn ddeallus a digymell
- ymateb i gyfraniadau eraill yn llawn ac aeddfed
- ymresymu'n berthnasol a threiddgar
- mynegi barn yn huawdl a chefnogi'r farn honno â rhesymau treiddgar
- ynganu'n gywir ac yn glir
- defnyddio cystrawen lafar naturiol ac adnoddau iaith eang a phriodol.

AA2

Bydd ymgeiswyr yn:

- arddangos gwybodaeth lawn o destunau penodedig a thrafod y technegau a ddefnyddir
- crynhoi ffeithiau perthnasol ac arddangos dealltwriaeth drwy eu cyflwyno'n gywir ac yn gydlynus
- croesgyfeirio rhwng gwahanol agweddau'r pwnc yn ôl yr angen
- arddangos dealltwriaeth gadarn o'r cysyniadau gan ddadansoddi ac ymresymu'n dreiddgar
- datblygu ac ehangu syniadau yn drefnus
- defnyddio dyfyniadau yn effeithiol ac yn ddeallus
- cyflwyno dadleuon gwreiddiol gan ymateb yn aeddfed a threiddgar.

AA3

Bydd ymgeiswyr yn:

- mynegi'u hunain yn aeddfed, yn glir ac yn gywir mewn gwahanol sefyllfaoedd ac at wahanol ddibenion
- saernïo'r gwaith yn ofalus
- rhoi sylw manwl i gywair, ffurf a chynulleidfa drwy amrywio'r arddull yn sensitif
- mynegi barn yn hyderus a chefnogi'r farn honno â rhesymau treiddgar
- arddangos amrywiaeth eang iawn o adnoddau iaith a gafael gadarn ar ramadeg a chystrawen.

**Ffin E/U**

AA1

Bydd ymgeiswyr yn:

- cyd-adweithio ag eraill
- cynnig sylwadau perthnasol
- ymateb yn syml i gyfraniadau eraill
- mynegi barn uniongyrchol yn glir
- defnyddio ystod o eirfa a phatrymau iaith sylfaenol yn effeithiol
- ynganu'n ddealladwy.

AA2

Bydd ymgeiswyr yn:

- arddangos gwybodaeth fras o destunau penodedig a thrafod yn syml rai o'r technegau a ddefnyddir
- cyfeirio at rai elfennau penodol wrth ddatblygu syniadau am y gweithiau a drafodir
- cyflwyno dadleuon yn syml
- dyfynnu'n achlysurol.

AA3

Bydd ymgeiswyr yn:

- mynegi'u hunain yn glir ac yn gywir ar y cyfan mewn testunau uniongyrchol
- arddangos peth ymwybyddiaeth o drefn, dilyniant a chywair
- mynegi barn a'i chefnogi â rhai rhesymau dilys
- defnyddio ystod o eirfa a phatrymau iaith addas; peth gafael ar ramadeg a chystrawen.

# 8 CANLLAWIAU ASESU MEWNOL

Anfonir sampl o asesiad mewnol y ganolfan at y safonwr allanol erbyn dyddiad a bennir ar ddechrau tymor yr haf ym mlwyddyn y cwrs.

Dylid cynnwys unrhyw ddeunyddiau symbylus a roddwyd i'r ymgeisydd. Dylid nodi unrhyw ragbaratoi ar ran yr ymgeisydd ei hun ac unrhyw gymorth/ arweiniad a roddwyd gan yr athro/athrawes. Dylai athrawon nodi cywiriadau a sylwadau ar y sgriptiau. Ni ddylid ail ddrafftio'r gwaith ar unrhyw gyfrif.

Bydd gofyn nodi'r dyddiad y cyflwynwyd y dasg ac unrhyw nodiadau/sylwadau perthnasol ar gyfer y safonwr megis sut y cafodd y dasg ei chyflawni, unrhyw ddeunydd cyfeiriol a ddefnyddiwyd.

Caiff y gwaith ei farcio pan gyflwynir ef i'r athro/athrawes yn ystod y cwrs. Ni ddylid ar unrhyw gyfrif roi marc am waith fydd wedi cael ei gymhwyso. Dylai'r athro/athrawes adael ei gywiriadau a'i sylwadau a gyfeiriwyd at yr ymgeisydd ar dasgau; ni ddylai ymgeisydd ailysgrifennu tasg ffolio na'i chywiro wedi i'r athro/athrawes ei chywiro.

Dylid caniatáu **2** awr ar gyfer cwblhau'r dasg a wneir o dan amodau arbennig. Dylid sicrhau bod safon y tasgau a osodir yn gymesur. "Amodau arbennig" yw amodau tebyg i rai arholiad cyffredin. Ni chaiff ymgeiswyr ymgynghori â'i gilydd. Caniateir mwy o amser i ddisgyblion ag anghenion arbennig. Dylid rhoi rhybudd o wythnos i ymgeiswyr cyn iddynt gyflawni'r dasg dan amodau arbennig. Caniateir defnyddio geiriadur neu ddeunydd pwrpasol e.e. pwyntiau bwled byr sy'n cynnwys ystadegau, ffeithiau, enghreifftiau a dyfyniadau perthnasol wrth gyflawni'r dasg.

**Rhoddir cyfarwyddyd pellach i athrawon neu ganolfannau unigol pan na fydd safonwyr yn hapus bod canolfannau wedi cwrdd â gofynion gwaith cwrs CBAC.**

**Lle y cyfyd problem sylweddol bydd CBAC yn:**

**(i) cymeradwyo tasgau asesiad mewnol pellach ac unrhyw gynlluniau marcio a gynigir gan y ganolfan;**
**(ii) cymeradwyo a monitro trefniadau'r ganolfan ar gyfer marcio a safoni gyhyd ag y tybir sydd yn angenrheidiol.**

Disgwylir i'r athro/athrawes farcio'r dasg o gyfanswm o 40.

Nodir isod rai elfennau y dylai athrawon eu hystyried wrth farcio'r tasgau.

- ysgrifennu'n gywir, yn eglur ac yn raenus gan arddangos ystod o adnoddau iaith; defnyddio gwybodaeth o ramadeg yn effeithiol mewn amryfal gyd-destunau;

- dangos ymwybyddiaeth o wahanol gyweiriau iaith a defnyddio'r iaith yn hyderus mewn gwahanol sefyllfaoedd ac at wahanol ddibenion gan roi ystyriaeth i'r pwrpas a'r gynulleidfa.

**Trefn Safoni Asesiad Mewnol**

- Cynhelir cynhadledd ar gyfer safonwyr yr asesiad mewnol cyn gynted â phosib ar ôl y dyddiad cau ar gyfer derbyn y gwaith.
- Ni fydd y safonwyr yn graddoli marciau ysgolion. Yn hytrach, ar ôl safoni anfonir ffurflen farciau pob ysgol, ynghyd â thaflen sylwadau a gwaith, sydd yn nhŷb y safonwyr yn enghreifftio marc na ddylid ei raddoli a marc y dylid ei raddoli, at y Prif Arholwr.
- Gan y Prif Arholwr/Swyddog CBAC yn unig y bydd yr hawl i raddoli'n derfynol.